LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

RHEOLIADAU

MEDI 2024

Rheoliadau diwygiedig a fabwysiadwyd gan Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru ym mis Medi 2024 yn unol â'r Siarter Atodol a Statudau 2006

1. Penodi Swyddogion ac Ymddiriedolwyr

1.1 Pan benodir Ymddiriedolwyr (yn cynnwys y Llywydd a'r Is-lywydd) gan Weinidogion Cymru mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolwyr yn unol â Statud 3(1) bydd yr Ymddiriedolwyr drwy benderfyniad yn pennu eu gweithdrefn ar gyfer ymateb i ymgynghoriad o'r fath a gallant ddirprwyo'r cyfryw gyfrifoldeb i Swyddogion y Bwrdd (Llywydd/ Is Lywydd/Trysorydd) neu bwyllgor Ymddiriedolwyr naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas â phenodiad neu benodiadau penodol.

1.2 Pan benodir Ymddiriedolwyr (yn cynnwys y Trysorydd) gan yr Ymddiriedolwyr mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru yn unol â Statud 3(2) bydd yr Ymddiriedolwyr drwy benderfyniad yn pennu'r weithdrefn ar gyfer gwneud y penodiad a gallant:

(a) gytuno i gymryd rhan mewn proses ar y cyd â Gweinidogion Cymru os yw Gweinidogion Cymru'n gwneud penodiadau'r un pryd ac yn unol â'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i wneud penodiadau cyhoeddus, yn yr achos hwnnw gall yr Ymddiriedolwyr benodi un o Swyddogion y Bwrdd neu Ymddiriedolwr i gynrychioli'r Llyfrgell yn ystod y broses honno ac ymgynghori â Gweinidogion Cymru i gael sêl bendith ganddynt ar gyfer yr ymgeision y mae'r Ymddiriedolwyr wedi argymell eu penodi cyn adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolwyr; neu

(b) penodi pwyllgor o'r Bwrdd i weithredu fel Panel Enwebiadau i gynnal proses ddethol a gwneud argymhellion ar gyfer penodi i'r Ymddiriedolwyr ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru

2. Cyfarfodydd Ymddiriedolwyr – trefniadau ar gyfer galw cyfarfod

2.1 Cyn bob blwyddyn galendr bydd yr Ymddiriedolwyr yn mynd ati ymlaen llaw i gymeradwyo amserlen a lleoliadau ar gyfer ei gyfarfodydd arferol y flwyddyn honno

2.2 Gellir cynnal cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr gyda phob un neu rai o'r Ymddiriedolwyr wedi'u cysylltu drwy lwyfannau cyfathrebu electronig

2.3 Bydd pob Ymddiriedolwr yn rhoi a chadw cyfeiriad electronig a phost cyfredol y dylid anfon papurau a gohebiaeth yn ymwneud â busnes y Llyfrgell iddo

2.4 Fel arfer bydd y rhaglen, yr agenda a'r papurau ar gyfer cyfarfod Ymddiriedolwyr yn cael eu hanfon yn electronig saith diwrnod cyn dyddiad pob cyfarfod i'r cyfeiriad sydd wedi ei nodi'n unol â rheoliad

2.5 Gall y Llywydd ar unrhyw adeg alw cyfarfod arbennig o'r Ymddiriedolwyr

2.6 Gall pump neu fwy o'r Ymddiriedolwyr hefyd wneud cais i gynnal cyfarfod arbennig naill ai'n dilyn trafodaeth mewn cyfarfod arferol o'r Ymddiriedolwyr neu drwy hysbysu'r

Llywydd yn ysgrifenedig; ar hynny rhaid i'r Llywydd bennu dyddiad a lleoliad y cyfarfod hwnnw a dylid ei gynnal o fewn un diwrnod ar hugain i wneud y cais, neu dderbyn y cais, beth bynnag fo'r achos

2.7 Fel arfer bydd y Prif Weithredwr yn bresennol yn holl gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr ac eithrio'r rhannau lle mae Cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu y byddai'n briodol i'r Prif Weithredwr dynnu'n ôl oherwydd diddordeb personol yn y busnes sy'n cael ei ystyried

2.8 Gall y Llywydd wahodd unigolion eraill i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr a chaniatáu iddynt gymryd rhan mewn trafodion busnes heblaw am bleidleisio

3. Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr – Llywydd

3.1 Bydd y Llywydd yn llywyddu cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr. Os yw'n absennol, bydd yr Is-lywydd yn llywyddu, ond os yw ef neu hi hefyd yn absennol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ethol un o'u plith i lywyddu'r cyfarfod hwnnw

3.2 Gall unrhyw bŵer neu ddyletswydd a roddwyd i'r Llywydd mewn perthynas â chynnal cyfarfod cael ei arfer yn ei absenoldeb ef neu hi gan y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod

3.3 Pan wneir cynnig i ohirio'r drafodaeth neu'r cyfarfod, os ym marn y Llywydd, nad yw'r mater sydd yn cael ei drafod ar y pryd wedi ei drafod yn ddigonol ac na ellir yn rhesymol ei drafod bryd hynny, bydd y Llywydd yn cynnig gohirio'r penderfyniad a rhoi'r cynnig i bleidlais heb roi'r hawl i gynigydd y cynnig gwreiddiol ymateb ar yr achlysur yna

4. Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr – sesiynau agored

4.1 Bydd cyfarfodydd Ymddiriedolwyr y Bwrdd yn agored i'r cyhoedd yn y Llyfrgell, ac eithrio pan fo busnes cyfrinachol i'w drafod

4.2 Yn amodol ar unrhyw benderfyniad gan yr Ymddiriedolwyr i'r gwrthwyneb, bydd y Llywydd yn penderfynu os dylid trafod eitem fusnes yn breifat

4.3 Rhoddir amserlen cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr ar wefan y Llyfrgell ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau ynglŷn â phresenoldeb yn y cyfarfod. Gofynnir i aelodau'r cyhoedd roi gwybod trwy e-bost i Glerc y Bwrdd 48 awr cyn y cyfarfod os ydynt am fynychu

4.4 Rhoddir agenda cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr ar wefan y Llyfrgell wythnos ymlaen llaw cyn y cyfarfod

4.5 Bydd crynodeb o bapurau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried yn gyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Llyfrgell o leiaf saith diwrnod calendr cyn y cyfarfod

4.6 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn tarfu ar drafodion, bydd y Llywydd yn eu rhybuddio ynglŷn â'r ymddygiad hwnnw. Os bydd yn dal i darfu ar y cyfarfod bydd y Llywydd yn gwneud cais i'r unigolyn adael y cyfarfod

4.7 Os bydd tarfu parhaus sydd, ym marn y Llywydd, yn golygu nad yw'n bosibl parhau i gynnal cyfarfod yr Ymddiriedolwyr yn gyhoeddus, gall y Llywydd ar sail ei d(d)isgresiwn ef neu hi ohirio'r cyfarfod am gyfnod o amser yr ystyrir sy'n gyfleus, ac yna gall ailgynnull y Bwrdd yn gyhoeddus neu mewn sesiwn preifat

4.8 Os daw'n amlwg, wrth drafod eitem fusnes penodol, y byddai'n fwy priodol parhau i wneud hynny'n breifat, gall y Llywydd benderfynu gwneud hynny, yn amodol ar unrhyw benderfyniad gan yr Ymddiriedolwyr i'r gwrthwyneb

4.9 Dim ond drwy gynnig gan y Llywydd a gyda sêl bendith mwyafrif yr Ymddiriedolwyr sy'n bresennol y gellir ffilmio neu gofnodi'n electronig drafodion cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr

5. Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr – sesiynau caeedig

5.1 Bydd eitemau busnes i'w trafod yn breifat mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr yn cael eu nodi ar yr agenda gyda'r rheswm dros drafod y busnes mewn sesiwn gaeedig. Cofnodir hyn hefyd yn y cofnodion cyhoeddedig o'r cyfarfod, oni bai bod y Llywydd yn dweud nad yw'n briodol nodi rheswm oherwydd natur y busnes i'w drafod. Gallai'r rhesymau hynny gynnwys, fel enghraifft yn unig, datgelu gwybodaeth bersonol, cyfrinachedd masnachol neu faterion sydd â braint gyfreithiol

6. Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr – trefn busnes

6.1 Fel arfer bydd busnes yng nghyfarfodydd arferol yr Ymddiriedolwyr a drafodir mewn sesiwn agored yn cynnwys:

(a) cofnodi enwau'r Ymddiriedolwyr sy'n bresennol

(b) ymddiheuriadau am absenoldeb

(c) datgan diddordeb

(ch) cymeradwyo a chadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir

(d) materion yn codi o'r cofnodion

(dd) materion a ddygwyd ymlaen drwy gyfarwyddyd y Llywydd

(e) materion a ddygwyd ymlaen gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol

(f) cofnodion anghyfrinachol ac adroddiadau Pwyllgorau ar gyfer nodi neu drafod

(ff) busnes anghyfrinachol ar gyfer nodi, trafod neu benderfynu

(g) lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

7. Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr - pleidleisio

7.1 Cynhelir pleidlais ar argymhellion gerbron yr Ymddiriedolwyr i benderfynu arnynt os cynigir ac eilir eu mabwysiadu. Bydd pleidlais ar unrhyw ddiwygiadau i'r argymhellion a gynigiwyd ac a eiliwyd yn cael eu trin yn gyntaf

7.2 Os bydd y bleidlais yn gyfartal, bydd gan y Llywydd ail bleidlais a phleidlais fwrw y gall ei harfer p'un ai ydyw wedi pleidleisio'n barod ai peidio

7.3 Yn syth ar ôl y bleidlais gall Ymddiriedolwr wneud cais i'r ffordd y pleidleisiodd ef neu hi ar y mater gael ei gofnodi yn y cofnodion

7.4 Os na chynhelir pleidlais ar argymhelliad ym mhapurau'r Bwrdd, yna ar ddiwedd y drafodaeth bydd y Llywydd yn crynhoi casgliadau'r drafodaeth ar gyfer y cofnodion

7.5 Os digwydd bod angen gwneud penderfyniadau tu allan i gyfarfodydd rheolaidd y Bwrdd sydd wedi eu hamserlenni, gall Ymddiriedolwyr ddod i benderfyniad ar y cyd trwy;

(a) drefnu cyfarfod arbennig o'r Ymddiriedolwyr naill ai wyneb yn wyneb neu yn rhithwir

(b) rhannu gwybodaeth i gyfarwyddo penderfyniad neu i alluogi Ymddiriedolwyr i ddod i benderfyniad trwy gyfrwng e-bost neu ddull electronig arall, a rhannu barn yr Ymddiriedolwyr ar e-bost, gyda chanlyniad y penderfyniad ar y cyd yn cael ei rannu'n agored gyda phawb sy'n ynghlwm â'r penderfyniad

7.6 Ble mae angen penderfyniadau a/neu bleidleisio trwy e-bost neu ddull electronig arall, mae Ymddiriedolwyr yn cytuno i rannu eu cyfeiriad e-bost gydag Ymddiriedolwyr eraill a staff perthnasol

8. Pwyllgorau

8.1 Gall yr Ymddiriedolwyr benodi'r cyfryw bwyllgorau, boed yn rhai sefydlog neu dros dro, i ba bynnag ddiben y credir sy'n addas, a phenodir y pwyllgorau sefydlog canlynol:

(a) Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd

(b) Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant

(c) Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

8.2 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo cylch gorchwyl, enw a chyfansoddiad bob pwyllgor, yn cynnwys y Cadeirydd a rhaid:

(a) gwneud darpariaeth ar gyfer penodi aelodau annibynnol gyda hawliau pleidleisio llawn i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd

(b) nodi bod yn rhaid i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd gyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, a'r Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau deirgwaith y flwyddyn

(c) gwneud darpariaeth ar gyfer penodi aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau; nid oes gan aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio llawn

8.3 Bydd pob Pwyllgor yn adolygu eu cylch gorchwyl ar ôl ei sefydlu ac yn achlysurol wedi hynny a gall argymell diwygiadau neu addasiadau y credir sy'n briodol i'r Ymddiriedolwyr eu hystyried

8.4 Gall yr Ymddiriedolwyr benodi unigolion eraill i weithredu fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor nad ydynt yn pleidleisio

8.5 Hefyd bydd Pwyllgor Swyddogion yn cynnwys y Llywydd, yr Is-lywydd a'r Trysorydd gydag awdurdod dirprwyedig i weithredu ar ran yr Ymddiriedolwyr ar faterion brys sy'n codi rhwng cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr neu mewn perthynas â busnes arall a ddirprwywyd yn benodol gan yr Ymddiriedolwyr. Rhaid adrodd ynghylch yr holl benderfyniadau a gymerir gan y Pwyllgor Swyddogion i gyfarfod arferol nesaf yr Ymddiriedolwyr

8.6 Bydd cyfarfod briffio Swyddogion y Bwrdd gyda'r Tîm Gweithredol yn cael ei gynnal cyn bod cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, ble mae'r agenda a materion ar gyfer cyfarfod y Bwrdd yn cael eu trafod

8.7 Bydd y Prif Weithredwr fel arfer yn bresennol yng nghyfarfodydd bob Pwyllgor naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd penodedig ac eithrio pan fo Cadeirydd y cyfarfod yn tybio ei bod yn briodol iddo ef neu hi dynnu'n ôl oherwydd diddordeb personol y Prif Weithredwr yn y mater sy'n cael ei drafod.

8.8 Oni bai bod cyfarwyddyd yn eu cylch gorchwyl yn dweud yn wahanol, cynhelir cyfarfodydd Pwyllgorau yn breifat

8.9 Bydd darpariaethau'r Rheoliadau hyn sy'n ymwneud â chynnal busnes yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn berthnasol gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol i gynnal busnes yng nghyfarfodydd Pwyllgorau

9. Cworwm

9.1 Ni chymerir unrhyw benderfyniadau mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr heb fod o leiaf bump o'r Ymddiriedolwyr yn bresennol

9.2 Ni chymerir unrhyw benderfyniad yn y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant na'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau oni bai bod o leiaf tri aelod o Ymddiriedolwyr y Pwyllgor yn bresennol (heblaw am y Pwyllgor Swyddogion – y cworwm yn hwnnw fydd dau)

10. Cofnodion

10.1 Cymerir cofnodion gan Glerc y Bwrdd ym mhob cyfarfod Ymddiriedolwyr a Phwyllgor a bydd yn crynhoi'r busnes a drafodwyd a'r penderfyniadau a gymerwyd neu'r argymhellion a wnaed. Bydd y cofnodion yn cael eu rhannu i'r Ymddiriedolwyr (neu i aelodau'r Pwyllgor) ar ffurf drafft i'w cymeradwyo yn y cyfarfod arferol nesaf

10.2 Bydd y cofnodion a gymeradwywyd o'r rhannau hynny o gyfarfodydd Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar gael i'r cyhoedd ar gais ac fe'u rhoddir ar wefan y Llyfrgell

11. Gwrthdaro buddiannau, datgan diddordeb a derbyn rhoddion

11.1 Bydd Clerc y Bwrdd yn cadw cofrestr o fuddiannau ariannol ac eraill yr Ymddiriedolwyr sy'n gysylltiedig â swydd Ymddiriedolwr yn y Llyfrgell, a bydd yn agored i gael ei harchwilio'n gyhoeddus

11.2 Bydd Ymddiriedolwyr yn diweddaru eu cofnodion ar gofrestr buddiannau'r Ymddiriedolwyr pryd bynnag y bydd newidiadau perthnasol i'w swydd

11.3 Bydd Clerc y Bwrdd, ar ran y Prif Weithredwr, yn gofyn i bob Ymddiriedolwr adolygu'r buddiannau sydd wedi eu datgan ganddynt bob blwyddyn

11.4 Ni ddylai Ymddiriedolwyr gymryd rhan mewn trafodaeth na phenderfyniad ar faterion lle mae ganddynt fuddiant ariannol neu ddiddordeb arall sy'n gysylltiedig â swydd Ymddiriedolwr yn y Llyfrgell

11.5 Fel arfer dylid datgan buddiant ar ddechrau cyfarfod a dylent nodi natur y buddiant a ph'un ai yw'n gyffredinol neu'n gysylltiedig ag eitem fusnes penodol ar agenda'r cyfarfod. Os na fydd Ymddiriedolwr yn sylweddoli ar ddechrau'r cyfarfod bod buddiant ganddo neu ganddi, dylai'r Ymddiriedolwr wneud hynny cyn gynted ag y mae'n dod yn ymwybodol ohono

11.6 Pan fo gan Ymddiriedolwr fuddiant nad yw'n ariannol sy'n gysylltiedig â swydd Ymddiriedolwr yn y Llyfrgell mewn mater (er enghraifft drwy rinwedd bod yn aelod o gorff cyhoeddus arall) dylai'r Ymddiriedolwr ddatgan y buddiant ac ystyried a yw'r buddiant yn golygu y dylent dynnu'n ôl o'r drafodaeth neu benderfyniad ynghylch y busnes dan sylw a gadael y cyfarfod tra bod yr eitem honno'n cael ei thrafod

11.7 Mewn achos o amheuaeth, dylai'r Ymddiriedolwr naill ai ddatgan yn agored bod posibilrwydd o wrthdaro buddiannau, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ddechrau'r cyfarfod neu godi'r mater gyda'r Llywydd ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Bydd y Llywydd, ar ôl derbyn cyngor, yn pennu a oes diddordeb ai peidio, a ph'un ai a yw'r gwrthdaro â buddiant y Llyfrgell i'r graddau y dylid atal yr Ymddiriedolwr rhag cymryd rhan yn y drafodaeth neu benderfynu ar y mater

11.8 Os oes gwrthdaro buddiannau, ym marn y Llywydd, bydd yr Ymddiriedolwr yn tynnu'n ôl o unrhyw drafodaeth neu benderfyniad ynghylch y busnes dan sylw ac yn gadael y cyfarfod tra bod yr eitem honno'n cael ei thrafod

11.9 Pryd bynnag y bo'n bosibl, dylid gwrthod unrhyw rodd, neu fudd, sydd mewn unrhyw ffordd yn ymwneud â swydd Ymddiriedolwr yn y Llyfrgell ac a roddir fel ffafr, neu am gost sy'n is na'r gost sydd ar gael i'r cyhoedd, a dylid rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr am y cynigion. Os byddai'n anrasol neu'n anodd peidio â derbyn y cyfryw rodd, rhaid i'r Ymddiriedolwr ddatgan hynny yng nghofrestr diddordebau'r Ymddiriedolwyr oni bai ei bod yn cael ei throsglwyddo i'r Llyfrgell a bod cofnod yn cael ei wneud o berchnogaeth y Llyfrgell o'r rhodd

11.10 Wrth gofrestru diddordebau neu ddatgan rhoddion neu fuddion dylai Ymddiriedolwyr hefyd gofrestru diddordebau nad yw'n ariannol a buddiannau aelodau agos o'r teulu a

phobl sy'n byw yn yr un tŷ â nhw ac sy'n wybyddus iddynt, sydd â chysylltiad agos â gweithgareddau'r Llyfrgell

12. Archwilio Dogfennau

12.1 Yn amodol ar unrhyw fesurau rheoli deddfwriaethol ynglŷn â diogelu gwybodaeth, gall Ymddiriedolwr, drwy wneud cais i'r Prif Weithredwr, archwilio unrhyw un o ddogfennau'r Llyfrgell. Bydd holl adroddiadau neu gofnodion pwyllgorau ar gael i'w harchwilio gan unrhyw Ymddiriedolwr

12.2 Ni fydd paragraff 12.1 yn berthnasol i unrhyw ddogfen sy'n gysylltiedig â mater lle mae gan yr Ymddiriedolwr sy'n gwneud y cais ddiddordeb yn unol â Rheoliad 11

13. Defnydd o Sêl Llyfrgell Genedlaethol Cymru

13.1 Gellir rhoi Sêl Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar ddogfen fel sy'n ofynnol gyda dau lofnod

(a) un gan y Llywydd, yr Is-lywydd, neu'r Trysorydd

(b) naill ai'r Prif Weithredwr neu gan un o'r Cyfarwyddwyr

13.2 Bydd unrhyw ddefnydd a wneir o'r Sêl yn cael ei adrodd i'r Ymddiriedolwyr yn eu cyfarfod arferol nesaf

14. Prif Weithredwr

14.1 Bydd y Llywydd, mewn ymgynghoriad â'r Is-lywydd a'r Trysorydd yn gyfrifol am arfarnu perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr

14.2 Os yw'r Prif Weithredwr wedi ei ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu'r Llyfrgell yn unol â chytundeb ariannol y Llyfrgell gyda Llywodraeth Cymru, cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yn rhinwedd y swydd fel Swyddog Cyfrifyddu yw hysbysu cyfarfodydd ynghylch pob mater o gywirdeb a chysondeb ac effeithlonrwydd ariannol. Os bydd yr Ymddiriedolwyr yn dyfarnu yn erbyn y cyfryw gyngor gan y Prif Weithredwr a bod y Prif Weithredwr yn teimlo na ellid amddiffyn y camau gweithredu dan sylw gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru, gall y Prif Weithredwr ofyn i'r Llywydd roi cyfarwyddyd ysgrifenedig iddo neu iddi ar y mater, a'r cyfarwyddyd hwnnw i'w ddwyn i sylw Archwilio Cymru

15. Atal y Rheoliadau

15.1 Ni ellir atal unrhyw Reoliad ac eithrio drwy benderfyniad gan yr Ymddiriedolwyr mewn cyfarfod lle mae o leiaf dwy ran o dair o'r Ymddiriedolwyr yn bresennol

DIWEDD